

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Regis Healthcare Ltd: Unedau
Brenin ac Ebwy

Dyddiad yr arolygiad: 13, 14 a 15
Mawrth 2018

Dyddiad cyhoeddi: 18 Mehefin
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

| | | |
|----|--|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom | 6 |
| 2. | Crynodeb o'n harolygiad | 7 |
| 3. | Yr hyn a ganfuom..... | 9 |
| | Ansawdd profiad y claf | 10 |
| | Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol | 15 |
| | Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth | 28 |
| 4. | Beth nesaf? | 33 |
| 5. | Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol | 34 |
| | Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ... | 35 |
| | Atodiad B – Cynllun gwella..... | 36 |

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Gonestrwydd: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredu: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gyfatebol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd o Regis Healthcare fin nos 13 Mawrth 2018 ac yn ystod y dydd ar 14 a 15 Mawrth 2018. Ymwelwyd â'r safle a'r unedau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

Ysbyty Glynebwy (Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed)

- Brenin
- Ebwy

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd Deddf Iechyd Meddwl enwebedig) a dau adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Adolygwyd dogfennau ar gyfer cleifion a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 gennym yn ystod yr arolygiad hwn, er mwyn asesu cydymffurfiaid â'r Ddeddf.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Pan fo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ceir manylion pellach am y modd yr ydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Canfuwyd pryderon sylweddol gennym ynghylch y defnydd gormodol o ataliaeth gorfforol lawn. O'r herwydd, nid oeddem yn gwbl sicr fod y bobl ifanc yn Regis Healthcare yn derbyn gofal yn ddiogel a bod canlyniadau yn cael eu monitro yn effeithiol; arweiniodd hyn i AGIC gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio i'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr cofrestredig, a cheir manylion hwn yn Atodiad A.

Hefyd, canfuwyd nifer o broblemau yn ymwneud â dogfennau, adrodd rheoliadol ac arweinyddiaeth uwch.

Derbyniwyd gohebiaeth gan yr unigolyn cyfrifol ar ôl ein harolygiad ond cyn cyflwyno'r hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn herio'r hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Dangosodd yr ohebiaeth ymhellach y diffyg dealltwriaeth o'r prosesau rheoleiddio a chydymffurfiaid â nhw.

Cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol gyda'r unigolyn cyfrifol, y rheolwr cofrestredig ac aelod o'r staff clinigol i rannu ein pryderon. Roedd y canlyniad yn ffafriol a thrafodwyd a chytunwyd â llawer o'r pryderon. Fodd bynnag, derbyniodd AGIC gadarnhad ysgrifenedig o welliannau a wnaed ar 19 Mawrth 2018. Nid oedd y rhain yn foddhaol ac mae'r pryderon yn dal i fod heb eu datrys ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Er gwaethaf y canfyddiadau uchod, gwelsom fod gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn gyffredinol a bod ystyriaeth sylweddol yn cael ei rhoi i weithgareddau ac ymyrraeth therapiwtig, bod y tîm staff yn cynnal perthynas dda gyda'r bobl ifanc, a bod mynediad da iawn at addysg, seicoleg, therapi galwedigaethol a gweithgareddau cymunedol.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth wedi eu cwblhau i safon dda

- Roedd y dogfennau Deddf Iechyd Meddwl wedi eu cwblhau i safon dda
- Roedd y staff yn gadarnhaol am natur agored y tîm amlddisgyblaeth
- Roedd y staff yn gadarnhaol am y cymorth yr oeddent yn ei dderbyn gan ei gilydd
- Roedd y rhaglenni seicoleg, therapi galwedigaethol, addysg a hamdden yn dda iawn

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Fel mater o frys, lleihau'n sylweddol y defnydd o arfer ataliaeth lawr lawn a symud i dechnegau tawelu mwy diogel
- Gwella dogfennau o ran hysbysu am ddigwyddiadau a'r defnydd o ymyriad corfforol cyfyngol
- Cadernid gweithdrefnau diogelwch y tu allan i oriau gwaith craidd
- Hysbysu AGIC yn well am ddigwyddiadau rheoliadau 30/31
- Datblygu rheolaeth fwy ymreolaethol ar gyfer y rheolwr cofrestredig

Nodwyd gennym nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â:

- Rheoliad 16 (2) (b) Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn ymwneud â diogelu cleifion rhag camdriniaeth
- Rheoliad 31 (1) (b) Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn ymwneud â hysbysu am ddigwyddiadau

Arweiniodd y materion difrifol hyn yn ymwneud â nifer yr achosion o ataliaeth lawr lawn a'u hyd, a methu â hysbysu AGIC am ddigwyddiadau difrifol, at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, nid oedd AGIC wedi derbyn sicrwydd digonol ynghylch y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r gwelliannau sydd eu hangen.

Nodwyd gennym hefyd achosion ychwanegol o ddiffyg cydymffurfiaid â'r rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn, yng nghyswllt arweinyddiaeth a rheolaeth, dogfennau a diogelwch. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw'r rhain wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfiaid â rheoliadau.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Regis Healthcare Ltd wedi ei gofrestru i ddarparu ysbyty annibynnol ar gyfer iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) yn Ysbyty Glynabwy, Hillside, Gwent, NP23 5YA.

Ceir dwy uned yn y gwasanaeth, Ebwy a Brenin, a cheir 12 gwely yn y ddwy, ac maent yn cynnig gofal i bobl ifanc iau na 18 mlwydd oed yn unig. Uned un rhyw menywod yn unig yw Ebwy.

Roedd 23 o fenywod yn yr uned ar adeg yr arolygiad.

Cofrestrwyd y gwasanaeth gyntaf ar 15 Ionawr 2014.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys y rheolwr cofrestredig, tîm o nyrsys cofrestredig (iechyd meddwl), dwy nyrs gofrestredig (oedolion) a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Mae'r tîm amlddisgyblaeth yn cynnwys seiciatryddion, meddygon, seicolegydd a seicolegwyr cynorthwyol, therapyddion galwedigaethol a chynorthwywyr technegol, athrawon a chynorthwywyr addysgu, a chydgyssylltwyr gweithgareddau. Roedd tîm gweinyddol mawr hefyd a oedd yn cynorthwyo'r timau clinigol i redeg yr ysbyty o ddydd i ddydd.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan fo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Roedd yn amlwg bod ymdrech wedi cael ei wneud o ran dylunio a dodrefnu'r unedau i gynnig amgylchedd priodol i'r bobl ifanc dderbyn gofal.

Er i ni weld adegau pan oedd y staff yn trin y bobl ifanc gydag ystyriaeth a thosturi ac i'r bobl ifanc ein hysbysu bod hyn yn wir fel rheol, roedd gennym bryderon sylweddol ynghylch nifer yr achosion o ataliaeth gorfforol lawn a oedd wedi eu cofnodi ar gyfer nifer o bobl ifanc, yn ogystal â'u hyd. Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod y gofal a ddarperir bob amser yn dangos urddas neu barch.

Roeddem yn fodlon bod ansawdd profiad y bobl ifanc o ran therapi seicolegol, addysgol a galwedigaethol yn dda. Hefyd, roedd y rhaglen weithgareddau yn amrywiol ac yn cynnwys llawer o ddigwyddiadau cymunedol, a oedd yn rhoi cyfleoedd i'r bobl ifanc ehangu eu profiadau bywyd.

Urddas a pharch

Er i ni ganfod yn gyffredinol fod y bobl ifanc yn yr ysbyty yn cael eu trin gydag urddas a pharch gan y staff o ran y trefnau o ddydd i ddydd, roeddem yn bryderus iawn ynghylch nifer yr achosion o ataliaeth lawr lawn ac ynghylch y cyfnodau o amser yr oedd yr ataliaethau hyn yn cael eu cynnal ar bobl ifanc unigol. Fe'n hysbyswyd yn ystod trafodaethau gyda'r bobl ifanc fod yr arfer yn achosi diffyg urddas ac yn "codi cywilydd ac yn anghyfforddus i'w wyllo", sy'n golygu bod yr ataliaeth yn digwydd mewn manau cyhoeddus ym mhresenoldeb pobl ifanc eraill. Trafodir hyn ymhellach ym mhrif ran yr adroddiad.

Roedd yn amlwg fod ymdrech wedi cael ei gwneud i ddarparu amgylchedd a chyfleusterau priodol i gynorthwyo'r ddarpariaeth o therapïau a gweithgareddau. Gwelsom walïau wedi eu peintio'n lliwgar ac amgylchedd lle'r oedd naws fodern, a oedd yn helpu pobl ifanc i deimlo'n gyfforddus. Ar y cyfan,

roedd yr amgylchedd yn lân ac wedi ei gynnal a'i gadw'n dda. Fodd bynnag, roedd rhai cadeiriau wedi eu marcio ac roedd rhai matresi yn fudr.

Roedd gan y bobl ifanc eu hystafelloedd gwely eu hunain â chyfleusterau en-suite, gan gynnwys toiled, sinc a chawod. Roedd yr ystafelloedd gwely wedi eu dodrefnu'n briodol ac roedd digon o le ynddynt ar gyfer eiddo'r bobl ifanc. Roedd y bobl ifanc yn gallu cael mynediad at eu hystafelloedd gwely yn rhydd (oni bai eu bod wedi eu cyfyngu ar gyfer eu diogelwch eu hunain) ac roeddent yn gallu eu cloi o'r tu mewn. Roedd y staff yn gallu agor y cloeon yn ôl y gofyn. Roedd panel arsylwi yn nrws pob ystafell wely fel y gallai'r staff gyflawni arsylwadau gyda chyn lleied o effaith â phosibl, yn enwedig os oedd yr unigolyn ifanc yn cysgu. Nodwyd mai ar gau oedd y safle arferol ar gyfer paneli arsylwi a'u bod yn cael eu hagor dim ond i gyflawni arsylw; roedd hyn yn helpu i gynnal preifatrwydd y bobl ifanc trwy atal eraill rhag gweld i mewn i'r ystafell wely. Roedd angen arsylwi llawer o bobl ifanc yn fwy dwys yn ystod y nos ar adeg yr arolygiad, a gadawyd drysau ystafelloedd gwely yn gilagored gyda staff yn eistedd ar wahân yn y coridor y tu allan.

Roedd un ardd gaeedig ar uned Brenin, a oedd wedi cael ei dylunio ar gyfer y grŵp cleifion ifanc. Fe'n hysbyswyd bod hwn yn fan yr oedd y bobl ifanc yn hoffi ei ddefnyddio ar gyfer saib pan oeddent dan straen arbennig.

Roedd ceir ysbyty dynodedig. Roedd y rhain yn cynorthwyo'r staff i hwyluso gweithgareddau ac apwyntiadau meddygol yn y gymuned.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y dodrefn a'r matresi yn lân ac yn addas i'w defnyddio.

Gwybodaeth a chydysniad cleifion

Roedd y bobl ifanc yn cael llyfryn gwybodaeth manwl wrth gael eu derbyn i'r ysbyty, a oedd yn cynnig amrywiaeth o wybodaeth am eu harhosiad yn Regis Healthcare. Rhoddwyd llyfryn tebyg i rieni/gofalwyr hefyd. Roedd gwybodaeth wedi ei harddangos yn yr ysbyty, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am yr ysbyty a gwybodaeth gyswllt y gwasanaeth eirioli.

Roedd "Bwrdd Cypolwg ar Statws Cleifion" ar bob uned unigol yn dangos gwybodaeth gyfrinachol am bob unigolyn ifanc a oedd yn derbyn gofal ar yr uned. Gwnaed gwelliannau ers ein harolygiad diwethaf yn 2016 i guddio'r wybodaeth pan nad oedd y byrddau yn cael eu defnyddio i sicrhau y gellid

cynnal cyfrinachedd ac na ellid gweld y byrddau pan oedd y bobl ifanc yn y coridorau. Fodd bynnag, roedd y staff ar ward Brenin yn cau'r bleind ar ffenestr arsylwi'r swyddfa i atal y bwrdd rhag cael ei weld. Roedd hyn yn golygu na allent weld y coridor y tu allan i'r ward pan fo'r bleind ar gau. Trafodwyd hyn gyda'r rheolwr diogelwch yn ystod yr arolygiad a rhoddwyd gorchudd o gwmpas y bwrdd a chafwyd gwared ar y bleind ar y ffenestr cyn i ni gwblhau'r arolygiad.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd manau drwy'r ward gyfan lle'r oedd gwybodaeth gyfredol wedi ei harddangos yn eglur a nodwyd arwyddion priodol gennym drwy'r ward gyfan.

Nodwyd gennym nad oedd arwyddion Cymraeg a thrafodwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol. Roedd un unigolyn ifanc a oedd yn siarad Cymraeg yn cael ei gadw yn yr ysbyty yn ystod cyfnod yr arolygiad ac fe'n hysbyswyd bod y cyfle i siarad Cymraeg yn cael ei gynnig.

Roedd yn amlwg o'n harsylwadau o ryngweithio rhwng y staff a'r cleifion fod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'r bobl ifanc. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas ar gyfer yr unigolyn. Pan oedd gwybodaeth yn dal i fod yn aneglur neu'n cael ei chamddeall, byddai'r staff yn egluro'r hyn a ddywedwyd yn amyneddgar.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried cael y prif arwyddion a dogfennau ar gael yn y Gymraeg.

Cynllunio a darparu gofal

Canfuwyd gennym o adolygu'r cynlluniau gofal a thriniaeth eu bod yn fanwl ac yn ddarllenadwy a bod canlyniadau a dyddiadau wedi eu nodi. Roeddent o safon dda ac yn drefnus ac wedi eu mynegeo. Gwelsom enghreifftiau hefyd pan oedd adolygiadau yn cael eu cynnal cyn y dyddiadau blynyddol disgwylidig (ymhen tri mis mewn un cynllun gofal a thriniaeth), yn dibynnu ar anghenion penodol yr unigolyn ifanc. Hefyd, roedd cyfle i'r bobl ifanc gyflwyno eu safbwyntiau eu hunain ar eu gofal a'u dyheadau mewn fformat a oedd yn cael ei gyflwyno yn yr adolygiadau cynllun gofal a thriniaeth, ac roeddent yn cael cynnig cymorth i wneud hynny.

Roedd yr ysbyty yn cynnal amrywiaeth o gyfarfodydd boreol beunyddiol i drefnu'r gweithgareddau, yn yr ysbyty ac yn y gymuned, ochr yn ochr â

gweithgareddau a chyfarfodydd eraill, fel cyfarfodydd cynllunio gofal ac apwyntiadau meddygol. Gwelsom un cyfarfod boreol amlddisgyblaeth lle trafodwyd unrhyw newidiadau i ofal unigolion, gan gynnwys unrhyw newidiadau ymddygiad dros nos. Hefyd, roedd cyfarfod fin nos lle gallai'r bobl ifanc unwaith eto drafod unrhyw faterion yn ymwneud â'r ysbyty.

Fe'n hysbyswyd y gallai'r bobl ifanc gael cymorth gan gyrff allanol mewn cyfarfodydd unigol, i ddarparu cymorth a chyfarwyddyd, fel cyfreithwyr neu eiriolwyr. Gyda chytundeb yr unigolyn ifanc, roedd teuluoedd a gofalwyr yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd hefyd. Roedd eiriolwr yn ymweld â'r unedau ar bob diwrnod gwaith. Fodd bynnag, dywedodd rhai pobl ifanc nad oedd amserlenni bob amser yn caniatáu i'r gwasanaeth eirioli fod ar gael ar gyfer pob cyfarfod unigol. Byddai o fudd pe bai'r amserlen i baratoi yn seiliedig ar anghenion unigolion yn hytrach nag amserlen rhybudd cyffredinol.

Fe'n hysbyswyd gan y staff nyrsio fod y cynlluniau gofal ar gyfer anghenion iechyd corfforol wrthi'n cael eu diweddarau. Edrychwyd felly ar sampl ar hap o rai hen a newydd. Roedd yn siomedig gweld bod y ddwy set yn anfodhaol. Gwelsom lenyddiaeth yn ymwneud â thriniaethau penodol nad oedd angen iddynt fod yn y ffeiliau gofal, roedd pob ffeil yn anhrefnus, ac nid oedd unrhyw gysondeb rhwng y ffeiliau yn gyffredinol. Ni welsom y sgrinio iechyd sylfaenol yr oeddem yn disgwyl fyddai yn y ffeiliau. Gwelsom hefyd nad oedd gwybodaeth bwysig am salwch cronig ac alergeddau wedi ei chofnodi yn ffeil un unigolyn ifanc.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal iechyd corfforol yn drefnus ac yn cynnwys y wybodaeth berthnasol.

Dylai'r rheolwr cofrestredig ganiatáu amserlenni digonol i bobl ifanc baratoi ar gyfer cyfarfodydd yn seiliedig ar anghenion unigolion yn hytrach nag amserlen rhybudd cyffredinol.

Mae angen i'r rheolwr cofrestredig archwilio a threfnu'r ffeiliau iechyd corfforol a sicrhau bod gwybodaeth iechyd bwysig yn cael ei nodi mewn asesiad cychwynnol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r ysbyty yn darparu mewnbyn addysg rhagorol i bobl ifanc o oedran ysgol yn ei gyfleuster Tŷ Seren, sy'n adnodd addysg â chyfleusterau priodol. Y tu allan i oriau ysgol, roedd gan bobl ifanc gynlluniau gweithgarwch a therapi unigol ac roeddent yn gallu dewis pa weithgareddau a therapiau yr oeddent yn

dymuno cymryd rhan ynddynt bob dydd, fel marchogaeth, dringo waliau, y gampfa leol a siopa. Cynhaliwyd nosweithiau “tecawê” a “nosweithiau ffilm” fin nos. Roedd gan y bobl ifanc fynediad at sesiynau seicoleg unigol a grŵp ac roedd cegin therapi galwedigaethol hefyd, y gallai'r bobl ifanc ei defnyddio ar gyfer sesiynau unigol a grŵp.

Roedd neuadd campfa yn Nhŷ Seren hefyd ond, yn anffodus, dim ond dau aelod o staff oedd wedi eu hyfforddi i ddefnyddio'r offer ac felly prin oedd yr amser i'w defnyddio y tu allan i oriau craidd. Gwnaeth y bobl ifanc sylwadau yr hoffent ddefnyddio cyfleusterau'r gampfa fin nos ar ôl amser ysgol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod staff digonol wedi eu hyfforddi i ddefnyddio cyfleusterau'r gampfa y tu allan i oriau craidd.

Ymgysylltiad ac adborth dinasyddion

Fe'n hysbyswyd bod y sefydliad wedi cynnal arolwg o safbwyntiau'r bobl ifanc yn ddiweddar gan ddefnyddio "SurveyMonkey", sef gwefan cynnal arolygon ar-lein. Datblygwyd hwn i annog cyfranogiad gan y bobl ifanc sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid oedd y canfyddiadau o'r arolwg hwn wedi eu harchwilio eto.

Roedd aelod o staff y mis hefyd, ac fe'n hysbyswyd bod hwn yn cael ei enwebu gan y bobl ifanc. Roedd hwn yn ymarfer da mewn meddwl cadarnhaol. Fodd bynnag, nid oedd wedi cael ei ddiweddarau ers mis Rhagfyr 2017.

Roedd dogfennau cyfreithiol i gadw'r bobl ifanc o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf) yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac yn dilyn canllawiau Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 2016 (y Cod).

Roedd polisi a gweithdrefnau cwynion ar waith. Roedd y polisi yn darparu strwythur ar gyfer ymdrin â'r holl gwynion ar gyfer gwasanaethau yn yr ysbyty.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Nid oeddem wedi ein sicrhau bod Regis Healthcare bob amser yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd gennym bryderon sylweddol ynghylch y defnydd gormodol ac estynedig o ataliaeth lawr lawn a chyflwynwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio gennym ar gyfer sicrwydd ar unwaith na fyddai'r arfer hwn yn cael ei ddefnyddio fel mater o drefn mwyach. Hefyd, canfuwyd gwendidau gennym o ran cynnal diogelwch yr adeilad yn y nos a storio torwyr rhwymynnau.

Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth a ddatblygwyd yn rhan o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 wedi eu cwblhau i safon dda; fodd bynnag, nid oeddent yn nodi unrhyw anghenion nad oeddent wedi eu diwallu nac yn cynnwys cynlluniau unigol ar sut yr hoffai'r bobl ifanc gael eu trin mewn achos o unrhyw ymddygiad heriol.

Roedd proses cadw cofnodion dda yn gyffredinol; roedd hyn yn cynnwys cynnal ffeiliau unigol a storio. Fodd bynnag, gan fod ffeil hanesyddol, ffeil iechyd meddwl gyfredol, ffeil iechyd corfforol a ffeil sylwadau beunyddiol, roedd y system yn drwsogl i'w defnyddio.

Oherwydd y cofnodi gwael yn y ffeiliau iechyd corfforol, ni allem fod yn sicr fod y bobl ifanc bob amser yn derbyn y gofal priodol yn brydlon.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Hen ysbyty cymuned yw Regis Healthcare, sydd wedi cael ei adnewyddu a'i ailwampio i ddarparu gwasanaeth CAMHS. Mae'r dyluniad a'r cynllun yn darparu amgylchedd â gosodiadau, ffitiadau a dodrefn priodol er mwyn helpu i gynnal diogelwch y bobl ifanc.

Roedd y mynediad i adeilad yr ysbyty yn fynedfa wastad yn syth o'r maes parcio, a oedd yn cynnig mynediad priodol i unigolion ag anawsterau symud.

Fodd bynnag, roeddem yn bryderus ynghylch nifer o feysydd o ran cynnal amgylchedd diogel ar gyfer gofal y bobl ifanc. Er enghraifft:

- Canfuwyd gennym ar ôl cyrraedd ar y noson gyntaf fod y brif glwyd fynediad ar agor ac nad oedd unrhyw un yn y dderbynfa. Roedd y nyrs â gofal ar y noson hon hefyd yn gyfrifol am ddiogelwch yr ysbyty. Ni ofynnwyd i ni lofnodi cyn mynd i mewn i'r adeilad ac ni chawsom ein hysbysu am yr hyn y gallem neu na allem fynd ag ef i mewn i'r unedau gyda ni. Awgrymwyd gennym fod arweinydd safle diogelwch ychwanegol (cydgysylltydd nos) yn cael ei nodi ar gyfer sifftiau nos.
- Roedd nifer sylweddol o bobl ifanc yn destun arsylwadau pum munud, 30 munud a 60 munud ac roeddem yn credu i gychwyn bod digon o staff i oruchwylio gofal diogel. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd y gofynnwyd i nifer o staff aros yn hwyrach na diwedd eu sifft pan wnaethom gyrraedd. Fe'n hysbyswyd hefyd y caniatwyd iddynt fynd adref ar ôl i ni adael.
- Cawsom sgwrs gyda nyrs asiantaeth, a ddywedodd wrthym fod un ystafell wely yn cael ei defnyddio fel ystafell "seibiant", er i aelodau staff eraill wadu hyn. Ein pryder oedd sut y daeth yr aelod o staff asiantaeth hwn i'r casgliad hwn. Mae angen cyfnod ymgyfarwyddo ac ymsefydlu i'r holl staff asiantaeth a sicrwydd eu bod yn deall y wybodaeth.
- Roedd yn peri pryder i ni hefyd fod anghysondeb o ran lleoliad y torwyr rhwymynnau; roedd rhai yn cael eu cadw mewn bagiau gafael, rhai mewn droriau yn yr ystafell glinigol ac eraill mewn drôr yn y swyddfa nyrsio gydag arwydd yn dweud "offer clinigol". Gallai hyn achosi oedi hollbwysig yn ystod sefyllfa frys. Hefyd, er bod modd cloi'r drôr clinigol, roedd ar agor yn ystod yr ymweliad nos ac ar y diwrnodau canlynol. Roedd gwrthrychau miniog yn y drôr hwn, fel torwyr rhwymynnau, torwyr dillad a siswrn. Ar uned Brenin, rhoddwyd tic yn unig ar gyfer yr archwiliadau diogelwch beunyddiol – nid oedd amser wedi ei gofnodi. Byddai hyn yn arwyddocaol i nodi amserlenni pe bai eitem ar goll.

Ar noson gyntaf ein harolygiad, gofynasom i'r nyrs â gofal i ddefnyddio ei threfniadau ar-aldad i hysbysu'r uwch-reolwyr ein bod yn bresennol. Daeth y rheolwr cofrestredig yn brydlon ac roedd yn gefnogol o'n ceisiadau am wybodaeth.

Roedd pwyntiau galw nyrsys o gwmpas y wardiau ac yn ystafelloedd gwely'r bobl ifanc fel y gallai'r cleifion neu'r staff alw am gymorth os oedd angen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y prif glwydi wedi eu cloi yn y nos a bod personél diogelwch digonol i oruchwylio unrhyw ymweliadau yn y nos, e.e. heddlu, ambiwlans neu ymwelwyr proffesiynol.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod lefelau staffio digonol i gynnal amgylchedd diogel bob amser, gan gynnwys staff ychwanegol yn ystod amseroedd arsylwi.

Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cyfnod ymgyfarwyddo ac ymsefydlu ar gyfer yr holl staff asiantaeth a sicrwydd eu bod yn deall y wybodaeth.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau dull cyson o storio a chadw cyfrif o offer brys.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Gwelsom drwy gydol yr arolygiad fod yr ysbyty yn amlwg yn lân ac yn rhydd o annibendod. Roedd staff domestig penodol, er bod gan y bobl ifanc ryw faint o gyfrifoldeb hefyd am gynnal glendid eu hystafelloedd a manau cymunedol. Roedd cyfleusterau golchi dillad ar gael yn yr ysbyty fel y gallai'r bobl ifanc olchi eu dillad eu hunain gyda lefel briodol o gymorth gan staff yn seiliedig ar anghenion unigol.

Disgrifiwyd system o archwilio rheolaidd o ran rheoli heintiau. Cwblhawyd hon gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella fel y gellid cymryd camau priodol yn ôl yr angen. Cadarnhaodd y staff fod amserlenni glanhau ar waith i hybu proses reolaidd ac effeithiol o lanhau'r ysbyty, ac roeddent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau. Gwelsom o edrych ar yr amserlenni glanhau fod cofnodion archwiliadau beunyddiol o fopiau ar uned Brenin yn anghyflawn. Fe'n hysbyswyd hefyd nad oedd unrhyw beiriant golchi dynodedig ar gyfer mopiau a chadachau, felly roedd y staff domestig yn golchi'r rhain â llaw ac yn eu sychu yn y gegin. Nid yw hon yn safon dderbyniol.

Roedd gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol ar gyfer atal a rheoli heintiau a dadheintio yn ôl y gofyn. Gwelsom gynwysyddion hylendid dwylo wedi eu gosod ar y wal drwy'r adeilad cyfan. Gofynnwyd pam roedd y cynhwysydd gyferbyn â'r gegin ar uned Brenin yn wag ac fe'n hysbyswyd bod y

bobl ifanc yn tueddu i wasgu'r hylif ar y llawr, a oedd yn achosi perygl wedyn. Awgrymwyd gennym y dylent gael gwared ar y cynhwysydd yn gyfan gwbl.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff. Roedd biniau priodol ar gael i gael gwared ar eitemau miniog meddygol ac nid oedd y rhain wedi eu gorlenwi.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cyfleuster golchi dynodedig ar gyfer glanhau mopiau a chadachau, sydd ar wahân i'r peiriant a ddefnyddir ar gyfer golchi dillad a dillad gwely.

Maetheg

Canfuwyd gennym fod y bobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i ddiwallu eu hanghenion maetheg. Roedd y staff yn cynorthwyo unigolion i baratoi eu prydau bwyd eu hunain yn rhan o'u gofal adsefydlu. Roedd hyn yn addysgu sgiliau coginio i'r bobl ifanc a sgiliau ychwanegol o ran paratoi bwydlenni a siopa am fwyd yn rhan o'u gweithgareddau adsefydlu â phwyslais cymunedol.

Arsylwyd amseroedd bwyd gennym a chawsom sgysiau gyda'r bobl ifanc am faint dognau, dewis ac ansawdd y bwyd. Roedd mwyafrif y sylwadau yn gadarnhaol gyda dim ond un yn awgrymu y byddai'n hoffi dewis iachach.

Roedd gan bob unigolyn ifanc focs danteithion yr oedd ganddo fynediad ato ar ôl amser bwyd fin nos. Roedd y bocs hwn yn cynnwys unrhyw ddanteithion yr oedd yr unigolyn yn dymuno eu prynu. Roedd amrywiaeth o ffrwythau ffres a byrbrydau ar gael yn y gegin pan wnaethom gyrraedd hefyd.

Roedd diodydd poeth ac oer ar gael yn ystod y dydd ond nid oedd diodydd poeth ar gael ar ôl 9pm, pan oedd y bobl ifanc yn mynd i'w hystafelloedd gwely fel rheol.

Edrychwyd ar y rhewgell fwyd yn uned Brenin a gwelsom ei bod yn gor-rewi. Byddai hyn yn effeithio ar y tymheredd ar gyfer storio bwyd. Hefyd, nid oedd unrhyw ddyddiadau ar y bwyd wedi ei rewi na'r bara na dyddiadau agor ar y cynhwysyddion storio grawnfwyd. Trafodwyd hyn gyda'r cogydd uwch a rhoddwyd sylw i'r mater cyn cwblhau ein harolygiad.

Rheoli meddyginiaethau

Roeddem yn fodlon ar y cyfan fod meddyginiaeth yn cael ei rhoi'n ddiogel.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio yn ddiogel yn yr ystafelloedd clinig. Roedd cypyrddau, oergelloedd a throlïau meddyginiaeth wedi eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Roedd y cofnodion rhoi meddyginiaeth (siartiau MAR) yn y ddwy uned wedi eu cwblhau i safon dderbyniol. Roedd siartiau MAR yn cynnwys statws cyfreithiol yr unigolyn ifanc o ran y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Adolygwyd sampl o siartiau meddyginiaeth a'r ystafelloedd clinigol ar y ddwy uned gennym, a chanfuwyd bod popeth yn briodol ac eithrio archwiliad nos o gyffuriau a reolir a oedd wedi cael ei gynnal ar noson ein hymweliad. Esboniwyd bod yr unigolyn ifanc wedi symud i uned Ebwy o uned Brenin dau ddiwrnod yn flaenorol ac na fu unrhyw gyffuriau a reolir ar yr uned cyn hynny. Gwiriwyd gennym y bore canlynol ac roedd yr archwiliad wedi cael ei gynnal fel sy'n ofynnol. Trafodwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol ac awgrymwyd gennym y dylai polisi meddyginiaeth diwygiedig Regis Healthcare adlewyrchu'n eglur pa mor aml a faint o staff ddylai wirio'r cyffuriau a reolir.

Mae Regis Healthcare yn defnyddio system ar gyfer archebu meddyginiaeth a gwelsom fod stoc helaeth ar gael at ddefnydd brys. Mae Ashtons Pharmaceuticals (cwmni allanol) yn ymweld yn wythnosol i oruchwylio unrhyw broblemau meddyginiaeth ac mae Regis Healthcare yn defnyddio dull archwilio Ashtons i sicrhau arfer diogel.

Roedd Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain ar gael i'r staff pe bai angen iddynt wirio gwybodaeth am unrhyw gyffuriau. Roedd y polisi rhoi meddyginiaeth hefyd ar gael i'r staff yn y ddwy ystafell feddyginiaeth.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn diogelu oedolion a phlant agored i niwed, gydag atgyfeiriadau i asiantaethau allanol yn cael eu gwneud yn ôl y gofyn.

Adolygwyd cyfraddau cwblhau hyfforddiant y staff o ran amddiffyn plant a gwelsom ar y matrices hyfforddiant fod 82 o 90 wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol. Holwyd y rheolwr cofrestredig ac fe'n sicrhawyd bod hyfforddiant arbenigol yn cael ei drefnu ar gyfer y staff a oedd yn weddill. Roedd yn amlwg yn ystod trafodaethau gydag aelodau staff eu bod yn wybodus ac yn gymwys o ran gweithdrefnau diogelu plant.

Bu un mater diogelu ers yr arolygiad diwethaf ac roedd hwn yn parhau i fod yn agored i'r awdurdod lleol ar adeg ein harolygiad.

Oherwydd ein pryderon ynghylch nifer a hyd achosion o ataliaeth, siaradodd AGIC gyda'r tîm diogelu yn yr awdurdod lleol, sef Blaenau Gwent. Ystyriwyd bod y pryderon hyn yn ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau atgyfeiriad i'r tîm diogelu. Trefnwyd cyfarfod amlddisgyblaeth, a oedd yn cynnwys byrddau iechyd ac awdurdodau lleol o Gymru a Lloegr a oedd yn gysylltiedig â lleoli'r bobl ifanc hyn. Mae'r pryderon hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, felly ni all AGIC wneud sylwadau pellach ar hyn o bryd oherwydd natur prosesau diogelu, ond byddwn yn parhau i fod yn rhan o'r broses ddiogelu o ran yr atgyfeiriad hwn. Ceir rhagor o wybodaeth am y pryder hwn o dan 'Gofal diogel a chlinigol effeithiol'.

Roedd ystafell ymwelwyr briodol i deuluoedd sy'n ymweld, gan gynnwys plant.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Fel y trafodwyd eisoes, adolygwyd yr offer brys yn y bagiau gafael ar y ddwy uned gennym a chanfuwyd bod gwahanol brosesau ar gyfer storio a chyfrifo offer fel torwyr rhwymynnau, torwyr dillad a siswrn. Mae angen cysondeb ar y ddwy uned fel y bydd unrhyw staff sy'n ymateb i achos brys yn gwybod ble i gael gafael ar yr offer angenrheidiol. Roedd anghysondebau hefyd o ran cadw cyfrif o offerynnau unigol fel torwyr dillad a siswrn a gallai hon fod yn broblem ddiogelwch fawr.

Trafodwyd hyn gyda'r rheolwr diogelwch yn ystod yr arolygiad ac roedd newidiadau eisoes yn cael eu gwneud erbyn y diwrnod olaf.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ni allem fod yn sicr bod y gofal a ddarperir i'r bobl ifanc yn ddiogel ac effeithiol bob amser. Mae hyn oherwydd bod gennym bryderon ynghylch agweddau ar y ddarpariaeth o ofal iechyd meddwl a chorfforol.

Iechyd meddwl – ataliaeth:

Pan fydd math o reolaeth neu ataliaeth yn cael ei ddefnyddio, mae'n rhaid bod trefniadau priodol ar waith i amddiffyn y bobl ifanc rhag y perygl y bydd rheolaeth neu ataliaeth o'r fath yn ormodol fel arall.

Cawsom sgysiau gyda'r staff a'r cleifion yn ystod yr arolygiad ac edrychwyd ar ddogfennau polisïau a gweithdrefnau yn ymwneud â'r arfer o ataliaeth "lawn" (mae hyn yn golygu atal claf tra ei fod ar y llawr, weithiau'n cynnwys hyd at bum aelod o staff). Teimlwyd gennym fod defnydd gormodol o'r dechneg atal hon am gyfnodau hir o amser, sy'n mynd yn groes i ganllawiau cenedlaethol.¹

Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)

1.4.29 Do not routinely use manual restraint for more than 10 minutes

1.7.14 Use restrictive interventions only if all attempts to defuse the situation have failed and the child or young person becomes aggressive or violent.

Adolygiad Deddf Iechyd Meddwl 1983 – Cod Ymarfer Cymru (Diwygiedig 2-16)²

19.5 os ystyrir bod angen ymyrryd â bywyd plentyn oherwydd ei anhwylder meddyliol, dylid sicrhau mai'r ymyriad hwnnw yw'r opsiwn sy'n stigmatiddio a chyfyngu leiaf arno o'r dewisiadau sy'n gyson â gofal a thriniaeth effeithiol

26.27 Dylai unrhyw ddulliau atal a ddefnyddir:

fod yn rhesymol, yn gyfiawnadwy ac yn gymesur â'r risg a achosir gan y claf

defnyddio'r lefel isaf posibl y gellir ei chyfiawnhau o'r cyfyngiad neu'r grym sy'n angenrheidiol i atal niwed i'r claf neu bobl eraill

¹ <https://www.nice.org.uk/guidance/ng10/chapter/1-Recommendations>

² Adolygiad Deddf Iechyd Meddwl 1983 – Cod Ymarfer Cymru (Diwygiedig 2-16)

cael eu defnyddio am gyfnod nad yw'n hwy na'r hyn sy'n hollol angenrheidiol

cael eu defnyddio mewn modd sy'n dangos parch at ryw'r claf ac unrhyw faterion diwylliannol sensitif a allai fod yn berthnasol iddo.

26.20 Dylid defnyddio dulliau atal corfforol i reoli ymddygiad heriol yn niffyg unrhyw gam posibl arall, mewn achos brys a phan fo'n ymddangos yn debygol y gallai niwed ddigwydd i'r claf neu eraill pe na bai'r ymyriad yn cael ei ddefnyddio.

Edrychwyd ar dri chynllun gofal a phum dogfen Deddf Iechyd Meddwl gennym. Nid oedd yr un ohonynt yn cynnwys cynllun gofal a oedd yn nodi sut y byddai'r claf yn dymuno i unrhyw ymddygiad heriol gael ei reoli. Ni welsom dystiolaeth o ymgysylltu â'r bobl ifanc i amlinellu sut yr hoffent gael eu trin (neu'r ffordd orau o dawelu eu hymddygiad) pe bai eu hymddygiad yn troi'n heriol. Hefyd, ni welsom unrhyw asesiadau risg unigol a chynlluniau dilynol ar gyfer cyflawni unrhyw fath o ataliaeth, yn enwedig sut y dylid ei uwchgyfeirio os bydd yr ymddygiad yn parhau.

Edrychwyd hefyd ar sampl ar hap o chwech o dablau digwyddiadau unigol a oedd yn cofnodi nifer y digwyddiadau a arweiniodd at ataliaeth. Roedd y rhain yn cynnwys ataliaeth "lawn". Gwelsom y canlynol dros gyfnod o chwe mis hyd at fis Chwefror 2018:

| | | |
|---------|----------------------------|----------------------|
| Claf 1: | 48 achos o ataliaeth lawn | 15 ar eu heistedd |
| Claf 2: | un achos o ataliaeth lawn | tri ar eu heistedd |
| Claf 3: | 76 achos o ataliaeth lawn | saith ar eu heistedd |
| Claf 4: | 11 achos o ataliaeth lawn | 15 ar eu heistedd |
| Claf 5: | 71 achos o ataliaeth lawn | 19 ar eu heistedd |
| Claf 6: | 109 achos o ataliaeth lawn | 51 ar eu heistedd |

Roedd sampl ar hap arall o wyth cofnod yn benodol ar ataliaeth a hyd yr ataliaeth yn dangos cyfnodau gormodol (dim hwy na deng munud yn ddelfrydol):

Claf a: 60 munud (30 + 30)

Claf b: 30 munud

Claf c: 60 munud (5 + 10 + 30 + 15)

Claf d: 30 munud

Claf e: 100 munud (60 + 40)

Claf f: 15 munud

Claf g: 25 munud

Fe'n hysbyswyd mewn sgysiau gyda'r staff fod ataliaeth yn digwydd yn feunyddiol oherwydd natur y grŵp cleientiaid. Cadarnhawyd ganddynt eu bod wedi derbyn hyfforddiant ar ataliaeth. Fe'n hysbyswyd ganddynt hefyd am anafiadau a ddiodefwyd o atal cleifion yn gorfforol.

Cawsom sgysiau gyda nifer o gleifion (tua saith), a gadarnhaodd fod ataliaeth lawr lawn yn cael ei defnyddio yn feunyddiol.

Pan heriwyd y rheolwr cofrestredig gennym wrth ei hysbysu am ein canfyddiadau, dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym fod AGIC wedi gwrthod caniatáu ystafell wahanu wrth gofrestru a, chan nad oedd ystafell o'r fath ar gael, ataliaeth oedd un o'r opsiynau amgen a ddefnyddir i reoli ymddygiad. Fodd bynnag, mae cyngor proffesiynol yn awgrymu:

Deddf Iechyd Meddwl 2015

Seclusion can be a traumatic experience for any individual but can have particularly adverse implications for the emotional development of a child or young person.

Canllawiau NICE

1.7.24 Decisions about whether to seclude a child or young person should be approved by a senior doctor and reviewed by a multidisciplinary team at the earliest opportunity.

1.7.26 Do not seclude a child in a locked room, including their own bedroom.

Er y dylid ystyried unrhyw fath o ataliaeth fel gweithred i'w defnyddio o dan amgylchiadau eithriadol yn unig, gall fod yn achos o fynd yn groes i hawliau dynol, y Ddeddf Plant, Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Fodd bynnag, rydym yn deall y gall ataliaeth fod yn ymyriad rheoli risg gyda'r bwriad o amddiffyn pobl rhag niwed. Fodd bynnag, mae'n rhaid i hwn fod

Tudalen 23 o 44

yn benderfyniad y rhoddwyd ystyriaeth iddo ac un sydd yn niffyg unrhyw gam posibl arall, ac mae'n rhaid iddo fod yn destun asesiad risg llawn, wedi ei gofnodi mewn cynlluniau gofal ac wedi ei gytuno gan yr unigolyn ifanc. Ceir rhagor o fanylion am yr hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn Atodiad B.

Iechyd corfforol:

Canfuwyd gennym o edrych ar y ffeiliau iechyd corfforol ar gyfer tri unigolyn anghysondebau rhwng yr holl ffeiliau. Er enghraifft:

- Defnyddiwyd dulliau asesu maethgol mewn un ond nid yn y lleill
- Ni chofnodwyd alergeddau
- Ni chofnodwyd clefydau cronig fel asthma
- Gwelsom gynllun gofal ar gyfer anaf i'r pen nad oedd yn cynnwys unrhyw werthusiadau dilynol, er bod y cofnod sylwadau beunyddiol yn awgrymu y bu pedwar digwyddiad arall yn ymwneud â'r un clwyf ac y rhoddwyd gorchuddion arno

Yr hyn y mae angen ei wella Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod asesiadau iechyd corfforol ac iechyd meddwl yn cael eu cynnal, bod canlyniadau yn cael eu cofnodi, a bod y cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Mae Regis Healthcare yn aelod o'r Rhwydwaith Ansawdd ar gyfer Cleifion Mewnol Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ³ (QNIC), sy'n enghraifft o arfer nodedig. Mae'n gweithio tuag at achrediad gyda'r rhwydwaith.

Gwelsom dystiolaeth hefyd o archwiliadau niferus a gyflwynir yn y cyfarfodydd llywodraethu ac ansawdd misol. Mae'r rhain yn arwain at oblygiadau uniongyrchol i ofal y bobl ifanc. Roedd yr archwiliadau hyn yn cynnwys adroddiadau ar ataliaeth, er na wnaed unrhyw newidiadau i arfer.

Rheoli cofnodion

³ Nod y rhwydwaith yw dangos a gwella ansawdd gofal cleifion mewnol seiciatrig plant a'r glasgoed trwy system o adolygu yn erbyn safonau gwasanaeth QNIC.

Er bod nifer o ffeiliau ar gyfer pob unigolyn, a oedd yn golygu bod dod o hyd i wybodaeth yn anodd, roedd y ffeiliau iechyd meddwl a chyfathrebu beunyddiol yn cynnwys tystiolaeth o broses cadw cofnodion dda. Roedd y ffeiliau iechyd corfforol yn wael ac nid oedd rhai materion iechyd pwysig wedi eu cofnodi. Cawsom sgwrs gyda nyrs gyffredinol, a ddywedodd wrthym nad oedd cynlluniau gofal ar gyfer gofal iechyd corfforol fel rheol yn cyd-fynd â chynlluniau gofal a thriniaeth a ddefnyddir ar gyfer iechyd meddwl. Er y gallai hyn fod yn gywir, nid oedd safon y cynlluniau gofal iechyd corfforol yn dderbyniol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sefydlu dogfennau gofal iechyd corfforol priodol i sicrhau bod staff yn cyflawni ac yn cynnal cofnodion i safon broffesiynol uchel.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cadw statudol pedwar o bobl ifanc ar draws y ddwy uned, ac roedd dogfennau Deddf Iechyd Meddwl yn cael eu rheoli gan weinyddwr Deddf Iechyd Meddwl profiadol. Canfuwyd gennym fod systemau cadarn ar waith ar gyfer rheoli ac archwilio dogfennau statudol a bod cofnodion yn daclus ac yn drefnus dros ben.

Roedd yn hawdd cael gafael ar gopiâu o ddogfennau statudol i'w hadolygu. Roeddem yn gallu cadarnhau bod yr holl achosion o gadw a adolygwyd yn cydymffurfio â'r Ddeddf a Chod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 2016.

Darparwyd meddyginiaeth i'r bobl ifanc yn unol ag Adran 58 y Ddeddf, "Cydsyniad i driniaeth". Roedd tystysgrifau cydsyniad i driniaeth yn cael eu cadw gyda'r siart cofnod rhoi meddyginiaeth (MAR) gyfatebol. Roedd hyn yn golygu y gallai staff sy'n rhoi meddyginiaeth gyfeirio at y dystysgrif i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi yn unol â darpariaeth cydsyniad i driniaeth Adran 58 y Ddeddf.

Roedd pob seibiant wedi cael ei awdurdodi gan y clinigydd cyfrifol ar ffurflenni awdurdodi seibiant Adran 17, ac roedd y rhain yn gyfredol ac wedi eu cofnodi'n dda.

Roedd gan y staff fynediad at God Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 2016 (y Cod); fodd bynnag, roedd hwn ar gael yn Saesneg yn unig ac nid yn y Gymraeg.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i Regis Healthcare sicrhau bod copïau digonol o'r Cod yn y Gymraeg a'r Saesneg fel y gall y staff, y bobl ifanc a'u perthnasau adolygu copi yn ôl y gofyn.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau cyfanswm o bedwar o gleifion gennym.

Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru gydag amcanion mesuradwy ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth unigol yn manteisio ar gryfder yr unigolyn ifanc unigol ac yn canolbwyntio ar wella ac annibyniaeth. Datblygwyd y rhain gydag aelodau o'r tîm amlddisgyblaeth.

Nodwyd yr arsylwadau cadarnhaol canlynol:

- Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth yn gyflawn ac roedd yn ymddangos eu bod yn cael eu cadw'n gyfredol
- Roedd gan rai pobl ifanc asesiadau risg ar waith a oedd yn nodi risgiau a sut i'w lliniaru a'u rheoli
- Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth yn nodi cydgysylltydd gofal yr unigolyn

Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnod o anghenion nad oeddent wedi eu diwallu yng nghynlluniau gofal a thriniaeth y bobl ifanc. Byddai hyn yn galluogi'r cydgysylltydd gofal a Regis Healthcare i adolygu'r ddarpariaeth o ofal i adlewyrchu unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

Hefyd, cynhaliwyd rhai asesiadau iechyd corfforol (fel y trafodwyd yn gynharach) wrth dderbyn yr unigolyn ifanc, ond nid oedd y rhain o safon dda iawn. Roeddent yn cael eu hadolygu ar y pryd ond canfuwyd achos gennym lle'r oedd salwch ac alergeddau yn cael eu cofnodi yn y cofnodion iechyd meddwl ond nid yn y cofnodion iechyd corfforol. Trafodwyd y posibilrwydd o ffeilio'r cofnodion iechyd corfforol ac iechyd meddwl gyda'i gilydd. Byddai hyn yn lleihau dyblygiad, yn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei chasglu, a hefyd yn lleihau nifer y ffeiliau ar gyfer pob unigolyn ifanc.

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Cadarnhaodd y staff ar adeg ein harolygiad nad oedd unrhyw bobl ifanc yn destun awdurdodiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Roedd gweithlu ymroddgar ac ymrwymedig yn Regis Healthcare a oedd yn gweithio'n gydlynol fel tîm amlddisgyblaeth. Cynorthwywyd y tîm clinigol gan dîm gweinyddol proffesiynol ac effeithiol.

Roedd y staff wedi cwblhau'r rhan fwyaf o hyfforddiant gorfodol ac ychwanegol. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y staff yn derbyn goruchwyliaeth glinigol grŵp a/neu unigol a bod gwerthusiadau blynyddol yn gyfredol.

Er bod systemau archwilio a llywodraethu cadarn a oedd yn mesur ansawdd a diogelwch gofal, nid oedd unrhyw beth wedi cael ei nodi ynghylch y pryderon iechyd corfforol ac iechyd meddwl yr ydym wedi eu trafod.

Roedd yr unigolyn cyfrifol yn yr ysbyty ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau ac wedi cymryd rhan fawr yn natblygiad y gwasanaeth i gychwyn. Gwelsom fod cyfranogiad ymarferol, tra-awdurdodol o hyd, a oedd o bosibl yn effeithio ar linellau cyfrifoldeb y rheolwr cofrestredig.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Canfuwyd gennym fod systemau a phrosesau wedi eu diffinio'n dda ar waith yn gyffredinol i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau yn barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, trwy raglen archwilio barhaus a'i strwythur llywodraethu sefydledig, a oedd yn galluogi aelodau staff allweddol/enwebedig i gwrdd yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth o ofal cleifion.

Roedd gan uwch-reolwyr a nodwyd gyfrifoldebau penodol am sicrhau bod y rhaglen lywodraethu yn dal i fod yn flaenllaw o ran darparu gwasanaethau. Roedd y trefniadau hynny wedi eu cofnodi fel y gellid eu hadolygu.

Roedd tystiolaeth o sgysiau gyda'r staff, arsylwi ymgysylltiad y tîm amlddisgyblaeth ac adolygu cofnodion y bobl ifanc o waith tîm amlddisgyblaeth cryf. Gwnaeth y staff sylwadau ffafriol ar y gweithio amlddisgyblaeth, gan nodi eu bod yn teimlo bod aelodau staff eraill yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn eu parchu.

Roedd yn gadarnhaol fod mwyafrif y staff yn Regis Healthcare yn croesawu ein sylwadau a'n hargymhellion yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, daeth yr unigolyn cyfrifol yn amddiffynnol ac yn wrthdrawiadol ynghylch rhai o'n canfyddiadau yn ystod y sesiwn adborth. Roedd yn anodd ar yr adeg hon i nodi'n eglur pwy oedd yn rheoli'r gwasanaeth a phwy oedd yn cynrychioli'r sefydliad. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod yr unigolyn cyfrifol wedi holi unigolion am yr hyn a ddatgelwyd i AGIC a chynnwys ein sgysiau gydag unigolion. Gwadwyd y pwynt hwn pan heriwyd yr unigolyn cyfrifol. Mae hyn yn peri pryder i ni ac nid yw'n hybu'r ethos o reolaeth agored a thryloyw.

Serch hynny, fel y nodwyd gennym eisoes, siaradodd y gweithwyr amlddisgyblaeth proffesiynol a'r timau cymorth yn galonogol am y cymorth gan ei gilydd. Roedd staff cymorth o bob gradd yn uchel eu parch tuag at y seiciatrydd, y seicolegydd, y therapyddion galwedigaethol a'u timau, a dywedasant eu bod yn ffynhonnell gadarnhaol o gyfarwyddyd a chymorth.

Roedd goruchwyliaeth glinigol grŵp a oedd yn galluogi'r aelodau staff i fyfyrion ar y gofal a ddarperir. Gellid darparu goruchwyliaeth glinigol unigol ar ffurf myfyrion ar gais.

Cyflwynodd AGIC hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio ar gyfer dau faes – y defnydd gormodol o ataliaeth lawr lawn, a'i hyd, a methu â chyflwyno hysbysiadau i AGIC am ddigwyddiadau difrifol.

Nid yw AGIC yn cyflwyno'r hysbysiadau hyn fel mater o drefn ac felly mae ein pryderon yn sylweddol. Diogelwch a llesiant y bobl ifanc yw ein blaenoriaeth ac mae ein prosesau yn llywio'r broses unioni yn gyfreithiol i sicrhau'r ddarpariaeth ddiogel o ofal.

Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 16 (2) (b) Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn ymwneud â diogelu cleifion rhag camdriniaeth.

- Roedd defnydd gormodol o'r arfer o ataliaeth lawn (atal claf tra ei fod ar y llawr) am gyfnodau hir o amser, nad oedd yn cyd-fynd â'r datganiad o ddiben a pholisïau perthnasol.
- Nid oedd cynlluniau gofal y cleifion yn nodi'r ffordd fwyaf priodol o ymdrin ag ymddygiad heriol.

Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 31 (1) (b) Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn ymwneud â hysbysu am ddigwyddiadau.

- Roedd achosion sylweddol o ddiffyg hysbysu AGIC am ddigwyddiadau hysbysedig ac roedd gan yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr cofrestredig ddiffyg dealltwriaeth o'r hyn y dylid hysbysu AGIC amdano.

Heriwyd ein canfyddiadau gan yr unigolyn cyfrifol yn syth ar ôl ein harolygiad, a arweiniodd i AGIC drefnu cyfarfod darparwr ffurfiol i gael sicrwydd fod dealltwriaeth eglur o'r gwelliannau a nodwyd, ac i esbonio goblygiadau'r broses diffyg cydymffurfio â'r rheoliadau. Daeth yn eglur yn ystod y cyfarfod fod yr unigolyn cyfrifol yn wybodus am y bobl ifanc a'r ddarpariaeth o wasanaethau, ond y rheolwr cofrestredig sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Gwnaeth AGIC hyn yn eglur yn ystod y cyfarfod. Mae AGIC wedi cynnwys hyn yn y cynllun gwella er mwyn sicrhau cydymffurfiaid. Hefyd, derbyniodd yr unigolyn cyfrifol fod ein harsylwadau yn ystod yr arolygiad yn gywir a bod angen i'r gwasanaeth wella dogfennau yn ymwneud ag ataliaeth. Fe'n sicrhawyd hefyd fod dodrefn meddal ataliaeth priodol newydd wedi cael eu prynu i osgoi'r angen i atal pobl ifanc ar y llawr.

Mae arwyddocâd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn adran "Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol" yr adroddiad hwn yn amlygu'r angen i wella archwilio a llywodraethu o ran cynllunio gofal a'r defnydd o ataliaeth. Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol clywed bod prosesau ar waith i gadarnhau a gweithredu polisïau i gynorthwyo'r staff yn eu gwaith.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i Regis Healthcare fod yn eglur ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr cofrestredig.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd polisi a gweithdrefn gwynion ar waith. Mae'r polisi yn cynnig strwythur ar gyfer ymdrin â holl gwynion y bobl ifanc. Nid oedd yr ysbyty wedi derbyn unrhyw gwynion ffurfiol erioed ar adeg yr arolygiad. Esboniodd y staff fod y bobl ifanc yn aml yn barod iawn i gynnig eu safbwyntiau ar y gwasanaeth a'u bod yn cael cyfle rheolaidd i godi unrhyw bryderon gyda'r staff drwy'r dydd neu mewn cyfarfodydd rheolaidd. Dywedodd y staff eu bod yn agored ac yn onest gyda'r bobl ifanc a bod unrhyw bryderon yn cael sylw'n gyflym pan fo'n bosibl, yr oeddent yn credu oedd yn atal cwynion ffurfiol rhag cael eu codi.

Roedd y bobl ifanc i ni siarad â nhw yn llawn canmoliaeth i'r gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan yr ysbyty a chadarnhawyd ganddynt nad oedd ganddynt reswm i wneud cwynion ffurfiol am y gwasanaeth.

Roedd proses sefydledig ar waith ar gyfer hysbysu am ddigwyddiadau a'u hadolygu, gan gynnwys atgyfeirio i sefydliadau statudol allanol yn ôl y gofyn, er bod anghysondebau sylweddol o ran nifer y digwyddiadau a oedd wedi cael eu hysbysu i AGIC yn unol â gofynion Rheoliad 31. Adolygwyd sampl o gofnodion digwyddiadau gennym, a oedd yn cofnodi manylion y digwyddiad, gan gynnwys yr unigolion a oedd yn rhan ohono. Roedd y cofnodion digwyddiad yn nodi'r camau a gymerwyd a gwersi a ddysgwyd ond nid oeddent wedi cael eu cyflwyno i AGIC. Oherwydd nifer y digwyddiadau nad oeddent wedi cael eu hysbysu, cyflwynwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio o ran y mater hwn.

Fe'n hysbyswyd bod y darparwr cofrestredig yn monitro digwyddiadau trwy ei dîm iechyd a diogelwch / llywodraethu, a oedd yn cyfarfod yn fisol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Adolygwyd y drefn staffio yn Regis Healthcare yn erbyn yr hyn a nodwyd yn ei ddatganiad o ddiben. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y tîm amlddisgyblaeth wedi ei hen sefydlu a chafwyd tystiolaeth o'r cofnodion i ni eu hadolygu a sgysiau gyda'r staff fod gweithio tîm amlddisgyblaeth ar y cyd. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai swyddi nyrsys cofrestredig (iechyd meddwl) gwag. Roedd yn amlwg bod y darparwr cofrestredig yn ceisio recriwtio i'r swyddi hyn i adlewyrchu ei weithlu fel y'i disgrifir yn ei ddatganiad o ddiben.

Roedd dibyniaeth fawr ar staff asiantaeth, ond roedd ymdrech i geisio cael gafael ar weithwyr asiantaeth rheolaidd o sefydliad a oedd yn arbenigo mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Felly, er nad oeddent yn cael eu cyflogi'n barhaol gan Regis Healthcare, roedd gweithlu cyson a oedd yn cynnig rhywfaint o ddibynadwyedd o ran darpariaeth y gwasanaeth.

Adolygwyd yr ystadegau hyfforddiant gorfodol a goruchwyliaeth glinigol ar gyfer staff yn yr ysbyty a chanfuwyd gennym fod y cyfraddau cwblhau yn uchel. Roedd rhaglen o hyfforddiant fel y byddai'r staff yn derbyn diweddariadau prydlon. Roedd y cofnodion electronig yn rhoi manylion cyfraddau cwblhau cyrsiau a manylion cydymffuriad staff unigol i'r uwch-reolwr. Roedd cynorthwydd Adnoddau Dynol a oedd yn goruchwyllo hyfforddiant staff. Roedd yn ymddangos bod hyfforddiant y staff yn cael ei reoli'n dda.

Trafodwyd yr amodau cofrestru ar gyfer y rheolwr cofrestredig, sy'n nodi:

Amod 5

Mae'n rhaid i chi gwblhau cymhwyster sy'n gysylltiedig â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) o fewn 18 mis i ddechrau eich cofrestriad.

Roedd hwn yn ddyddiedig 28 Mehefin 2017, sy'n golygu bod rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau'r cymhwyster erbyn 28 Rhagfyr 2018.

Cydnabyddir Regis Healthcare gan Ysgol Iechyd a Gwyddor Gymdeithasol Prifysgol De Cymru ac felly mae gan nyrsys dan hyfforddiant y cyfle i ennill profiad ymarferol yn yr ysbyty. Mae hon yn enghraifft arall o arfer nodedig.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Esboniodd y staff y prosesau recriwtio sydd ar waith. Roedd yn amlwg bod systemau ar waith i sicrhau bod recriwtio yn dilyn proses agored a theg yn gyffredinol, gyda chofnodion o geisiadau, cyfweliadau a chyfathrebiad yn cael eu cadw ym mhob ffeil. Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau staff wrthym eu bod wedi cael eu symud o'r tîm gofal cartref (chwaer-sefydliad) i weithio yn yr ysbyty pan oedd uned Brenin wedi agor. Ni welsom newid i gontractau na thystiolaeth o unrhyw broses recriwtio, er bod y rhain yn sefydliadau ar wahân.

Roedd tystlythyrau yn cael eu derbyn, cymwysterau proffesiynol yn cael eu gwirio, ac archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal cyn cyflogi staff.

O ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y gwasanaeth i fonitro cydymffuriad â rheoliadau a safonau perthnasol. Er nad oes unrhyw argymhelliad penodol wedi cael ei wneud yn hyn o beth, y disgwyliad yw y bydd tystiolaeth o welliant pendant yn hyn o beth ar adeg yr arolygiad nesaf.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau, maent wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Pan fyddwn yn nodi unrhyw ddiffyg cydymffurfio a phryderon difrifol am ddiogelwch a llesiant cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu trwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol a dyma'r cam cyntaf mewn proses a allai arwain at achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ddirybudd fel rheol. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd gan fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y ffordd y maent yn gweithredu fel rheol. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Caiff adborth ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd pob arolygiad, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut y mae gwasanaethau:

- Yn cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#) a [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#), ac yn gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Yn cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Yn cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Yn bodloni'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel sy'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir rhagor o fanylion am sut y mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) ac [annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y claf | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|--|---|--|---|
| <p>Canfuwyd gennym fod y rhewgell fwyd yn y gegin ar uned Brenin yn gor-rewi ac y byddai hyn yn effeithio ar y gallu i storio bwyd yn ddiogel.</p> | <p>Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion dderbyn bwyd nad oedd wedi cael ei storio yn unol â chyngor y gweithgynhyrddydd.</p> | <p>Codwyd y pryder hwn gyda'r staff arlwygo yn ystod yr arolygiad, gan ofyn i hyn gael ei ddatrys.</p> | <p>Dad-rewyd y rhewgell gan y staff arlwygo ar unwaith.</p> |
| <p>Canfuwyd gennym fod staff ar uned Brenin yn cau'r bleind ffenestr yn y swyddfa i atal pobl rhag gweld y Bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion heb awdurdod.</p> | <p>Roedd hyn yn golygu na allai'r staff arsylwi pobl ifanc yng nghoridor yr uned a chynnal amgylchedd diogel.</p> | <p>Codwyd y mater gyda'r rheolwr diogelwch yn ystod yr arolygiad, gan ofyn i hyn gael ei ddatrys.</p> | <p>Trefnodd y rheolwr diogelwch i'r bleind gael ei dynnu i lawr ac i orchuddion gael eu gosod dros y Bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion y tu mewn i'r swyddfa.</p> |

Atodiad B – Cynllun Gwella

Gwasanaeth: Regis Healthcare

Ward/uned(au): Brenin ac Ebwy

Dyddiad yr arolygiad: 13, 14 a 15 Mawrth 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|-----------------------------|---|---|-----------------------------------|
| Ansawdd profiad y claf | | | | |
| Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y dodrefn a'r matresi yn lân ac yn addas i'w defnyddio. | 10. Urddas a pharch | Bydd matresi yn cael eu dadheintio gyda glanedydd yn drylwyr. Mae'n rhaid rinsio matresi gyda dŵr oer a'u sychu'n drylwyr yn rhan o'r rota lanhau. Cafwyd gwared ar y fatres a sylwyd yn ystod yr arolygiad ar adeg yr arolygiad, gan roi un newydd un ei lle. | Rheolwr cofrestredig Rheolwr yr uned a'r tîm gofal | Cwblhawyd |
| Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried cael y prif arwyddion a dogfennau ar gael yn y Gymraeg. | 18. Cyfathrebu'n effeithiol | Bydd y prif arwyddion a dogfennau ar gael yn y Gymraeg. Bydd y bobl ifanc yn cael eu cynnwys yn | Rheolwr cofrestredig | I'w gwblhau erbyn 31 Mehefin 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|---|---|---|---|
| | | y gwaith o greu'r arwyddion yn ystod y grŵp celf. | | |
| Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal iechyd corfforol yn drefnus ac yn cynnwys y wybodaeth berthnasol. | 8. Cynllunio a darparu gofal | Dadgomisiynwyd yr holl ffeiliau iechyd corfforol ac mae'r holl wybodaeth iechyd corfforol wedi ei chynnwys yn adran 16 prif ffolder y claf erbyn hyn. | Rheolwyr uned Rheolwyr cofrestredig | Cwblhawyd |
| <p>Dylai'r rheolwr cofrestredig ganiatáu amserlenni digonol i bobl ifanc baratoi ar gyfer cyfarfodydd yn seiliedig ar anghenion unigolion yn hytrach nag amserlen rhybudd cyffredinol.</p> <p>Mae angen i'r rheolwr cofrestredig archwilio a threfnu'r ffeiliau iechyd corfforol a sicrhau bod gwybodaeth iechyd bwysig yn cael ei nodi mewn asesiad cychwynnol.</p> | 2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol | <p>Darperir y cymorth eirioli gan yr awdurdod lleol gan fod y bobl ifanc yn cael eu cadw a bod hwn yn ofyniad cyfreithiol. Mae Regis wedi ei gyfyngu o ran gallu trefnu cymorth gan wasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol ond byddwn yn cyfeirio hyn at y cwmni sy'n darparu cymorth i'r ysbyty.</p> <p>Bydd archwiliad o wybodaeth iechyd corfforol yn cael ei gwblhau ac yn cynnwys dull yr Archwiliad Iechyd Corfforol.</p> <p>Bydd asesiadau corfforol sylfaenol yn cael eu diffinio mewn cyfnodau amser fel y gellir diwallu anghenion iechyd yn</p> | <p>Rheolwr cofrestredig i drafod gyda sefydliad gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol</p> <p>Rheolwyr uned Nyrsys sylfaenol Meddyg y ward Rheolwyr</p> | <p>Parhaus ac i'w gwblhau erbyn 31 Mai 2018</p> <p>Parhaus ac i'w gwblhau erbyn 31 Mai 2018</p> <p>Parhaus ac i'w gwblhau erbyn</p> |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|--|--|---|--|
| <p>Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod staff digonol wedi eu hyfforddi i ddefnyddio cyfleusterau'r gampfa y tu allan i oriau craidd.</p> | | <p>brydlon.</p> <p>Bydd hyfforddwr campfa yn cynnal cyfnod ymsefydlu i gleifion ac yn datblygu cynllun hyfforddi unigol. Bydd hwn yn cael ei gadarnhau gan y clinigydd cyfrifol. Gellir defnyddio hwn i gynorthwyo pobl ifanc.</p> | <p>cofrestredig</p> <p>Hyfforddwr campfa cymwysedig</p> <p>Clinigydd cyfrifol / meddyg y ward</p> | <p>30 Mehefin 2018</p> |
| Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol | | | | |
| <p>Hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio:</p> <p>Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 16 (2) (b) Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn ymwneud â diogelu cleifion rhag camdriniaeth. Mae hyn oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod defnydd gormodol o'r arfer o ataliaeth lawn (atal claf tra ei fod ar y llawr) am gyfnodau hir o amser, nad oedd yn cyd-fynd â'r datganiad o | <p>22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch</p> | <p>Archwiliad o ataliaeth lawr sylfaenol.</p> <p>Mae'r ysbyty wedi sefydlu cyfarfodydd adolygu digwyddiadau wythnosol ar lefel weithredol, i olrhain digwyddiadau a</p> | <p>Tîm amlddisgyblaeth</p> <p>Rheolwr cofrestredig</p> | <p>I'w gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2018</p> <p>Cynllun lleihau ataliaeth chwe mis ar waith, a gychwynnodd</p> |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|------------------|---|---|--|
| <p>ddiben a pholisïau perthnasol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid oedd cynlluniau gofal y cleifion yn nodi'r ffordd fwyaf priodol o ymdrin ag ymddygiad heriol. | | <p>chyngori'r tîm clinigol ar awgrymiadau eraill y tu allan i'r adolygiadau clinigol wythnosol arferol y mae'r tîm amlddisgyblaeth yn eu cynnal.</p> <p>Mae'r rheolwr cofrestredig a'r tîm amlddisgyblaeth wedi ymweld ag uned diogelwch canolig ac uned diogelwch isel gwasanaethau CAMHS Bluebird i rannu arferion a dysgu arfer gorau o ran ataliaeth gorfforol er mwyn gweithio i wneud hyn. Gwnaed hyn ar 8 Mai 2018.</p> <p>Aeth y rheolwr cofrestredig a'r tîm amlddisgyblaeth i fforwm "rhannu arfer gorau" GIG Cymru ar 10 Mai 2018, lle nodwyd sawl ffordd y gallant ymgysylltu'n well â phobl ifanc o ran y broses ddigwyddiadau.</p> <p>Mae'r tîm wedi bod yn monitro digwyddiadau yn feunyddiol wrth drosglwyddo ac yn wythnosol yn y cyfarfod digwyddiadau penodol. Prynwyd y "podiau diogelwch" yn dilyn ymweliad cychwynnol AGIC hefyd, gyda'r nod o leihau ataliaeth amser a</p> | <p></p> <p>Tîm amlddisgyblaeth a'r rheolwr cofrestredig</p> <p>Tîm amlddisgyblaeth a'r rheolwr cofrestredig</p> | <p>ym mis Ebrill</p> <p>Tîm amlddisgyblaeth a'r rheolwr cofrestredig</p> <p>23/24 Mai 2018</p> |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|-----------------------------|------------------|---|---------------------|---|
| | | <p>llawr.</p> <p>Roedd cynlluniau rheoli risg ar waith ar adeg arolygiad AGIC, ond mae'r rhain wedi cael eu diwygio erbyn hyn i gynnwys cynlluniau "dymuniadau estynedig" a disgwylir i hyfforddiant staff gael ei gynnal ar 23 a 24 Mai i atgyfnerthu'r rhain a'r defnydd o dechnegau tawelu a thynnu sylw.</p> <p>Ym mhob trosglwyddiad boreol, mae'r tîm amlddisgyblaeth yn adolygu achosion o drais ac agwedd ymosodol gan bobl ifanc lle defnyddiwyd ataliaeth lawr. Y nod yw monitro hyd a defnydd ataliaeth lawr a'i heffaith ar y claf. Pan fo'n briodol, bydd y clinigydd cyfrifol yn gofyn i aelod arweiniol o'r tîm gyfarfod gyda'r claf i lunio cynllun ac adolygu'r cynllun gofal presennol ar gyfer rheoli ymddygiad heriol gyda'r claf.</p> <p>Mae'r ffurflenni digwyddiad wedi cael eu diweddarau i amlygu pryd y mae staff wedi tawelu a cheisio rhoi terfyn ar yr</p> | Tîm amlddisgyblaeth | <p>Cwblhawyd gan ei fod eisoes wedi cychwyn</p> <p>Cwblhawyd ac yn barhaus</p> <p>Cwblhawyd</p> |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|---|---|---|--|
| <p>Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 31 (1) (b) Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn ymwneud â hysbysu am ddigwyddiadau.</p> <ul style="list-style-type: none"> Roedd achosion sylweddol o ddiffyg hysbysu AGIC am ddigwyddiadau hysbysedig ac roedd gan yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr cofrestredig ddiffyg dealltwriaeth o'r hyn y dylid hysbysu AGIC amdano. <p>Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y prif glwydi wedi eu cloi yn y nos a bod personél diogelwch digonol i oruchwylio unrhyw ymweliadau yn y nos, e.e. heddlu, ambiwlans neu ymwelwyr proffesiynol.</p> | <p>22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch</p> <p>12. Yr amgylchedd</p> <p>4. Trefniadau cynllunio brys</p> | <p>ataliaeth.</p> <p>Mae'r tîm amlddisgyblaeth yn adolygu achosion o drais ac agwedd ymosodol gan bobl ifanc lle defnyddiwyd ataliaeth lawr yn ystod pob rownd ward, ac yn cytuno ar gynlluniau rheoli newydd yn ôl yr angen.</p> <p>Bydd digwyddiadau hysbysadwy yn cael eu hadrodd trwy borth adrodd digwyddiadau hysbysadwy AGIC.</p> <p>Bydd y rheolwr cofrestredig yn hysbysu am bob digwyddiad yn unol â gofynion rheoleiddio ac yn aros am y canllawiau newydd fel y'u disgrifiwyd gan AGIC.</p> | <p>Clinigydd cyfrifol</p> <p>Rheolwr cofrestredig</p> <p>Rheolwr cofrestredig</p> <p>Rheolwr cofrestredig</p> | <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd ac yn barhaus</p> |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|------------------|---|---|-----------|
| <p>Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod lefelau staffio digonol i gynnal amgylchedd diogel bob amser, gan gynnwys staff ychwanegol yn ystod amseroedd arsylwi.</p> | | <p>Caiff yr holl glwydi eu cloi yn y nos ac mae rhywun ar gael ar y dderbynfa tan ddiwedd y sifft ddydd (8pm). Yr arweinydd diogelwch sy'n gyfrifol am hyn yn ystod y nos, ac arweinydd tîm pob ward yw hwn fel rheol gan nad oes unrhyw ymweliadau y tu allan i'r oriau hyn, dim ond ymatebion brys.</p> | | Cwblhawyd |
| <p>Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cyfnod ymgyfarwyddo ac ymsefydlu ar gyfer yr holl staff asiantaeth a sicrwydd eu bod yn deall y wybodaeth.</p> | | <p>Mae lefelau staffio yn cyd-fynd â niferoedd y matrices craidd a chynhelir staff ychwanegol yn unol â lefelau arsylwi bob amser.</p> | <p>Rheolwr cofrestredig Rheolwyr uned sy'n gyfrifol am y rota</p> | Cwblhawyd |
| <p>Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau dull cyson o storio a chadw cyfrif o offer brys.</p> | | | <p>Rheolwyr cofrestredig Adnoddau Dynol</p> | Cwblhawyd |
| <p>Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau dull cyson o storio a chadw cyfrif o offer brys.</p> | | <p>Mae'r holl staff asiantaeth yn cael eu hymsefydlu ar y ward. Rydym wedi ailgynnal y trefniadau ymsefydlu ar ôl yr arolygiad.</p> <p>Mae'r rhestr wirio frys yn cyd-fynd â</p> | <p>Rheolwyr cofrestredig a'r arweinydd clinigol</p> | |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|--|----------------------|--------------------|
| | | pholisi Ashtons Pharmacy a Regis Healthcare ar draws y gwasanaeth cyfan erbyn hyn. | | |
| Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cyfleuster golchi dynodedig ar gyfer glanhau mopiau a chadachau, sydd ar wahân i'r peiriant a ddefnyddir ar gyfer golchi dillad a dillad gwely. | 13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Mae peiriant golchi ar wahân ar gyfer mopiau ar gael erbyn hyn. | Rheolwr cofrestredig | Cwblhawyd 18.05.18 |
| Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod asesiadau iechyd corfforol ac iechyd meddwl yn cael eu cynnal, bod canlyniadau yn cael eu cofnodi, a bod y cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. | 7. Gofal diogel a chlinigol effeithiol | <p>Cynhelir cyfarfodydd adolygu gofal gyda chyfranogiad yr holl dîm amlddisgyblaeth. Bydd y cynlluniau rheoli risg presennol yn cael eu haddasu i 'Fy Nghynllun Gofal Ymddygiad Heriol' yn unol â pholisi. Bydd hyn yn cynnwys dymuniadau ymlaen llaw. Mae canlyniadau anghenion sydd wedi eu diwallu a heb eu diwallu yn cael eu nodi'n eglur erbyn hyn ac yn hysbysu'r cynllun gofal newydd yn y cyfnod adolygu.</p> <p>Mae asesiadau iechyd corfforol yn seiliedig ar ddull yr Archwiliad Iechyd Corfforol erbyn hyn, sydd â'r nod o helpu pobl sy'n cael eu heffeithio gan</p> | | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|-------------------------|---|---|-----------|
| | | salwch meddwl i nodi (ar y cyd â gweithiwr iechyd proffesiynol) unrhyw anghenion iechyd corfforol y gallai fod ganddynt. Mae'r cynllun gweithredu ar ddiwedd yr Archwiliad Iechyd Corfforol yn cynnig cyfle i roi sylw i unrhyw anghenion a nodwyd. | | |
| Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sefydlu dogfennau gofal iechyd corfforol priodol i sicrhau bod staff yn cyflawni ac yn cynnal cofnodion i safon broffesiynol uchel. | 20. Rheoli cofnodion | Mae asesiadau iechyd corfforol yn seiliedig ar ddull yr Archwiliad Iechyd Corfforol erbyn hyn, sydd â'r nod o helpu pobl sy'n cael eu heffeithio gan salwch meddwl i nodi (ar y cyd â gweithiwr iechyd proffesiynol) unrhyw anghenion iechyd corfforol y gallai fod ganddynt. Mae'r cynllun gweithredu ar ddiwedd yr Archwiliad Iechyd Corfforol yn cynnig cyfle i roi sylw i unrhyw anghenion a nodwyd. Bu newid o ran nyrs gyffredinol gofrestrdig yn y gwasanaeth hefyd. | Rheolwyr uned a'r holl nyrsys sylfaenol | Cwblhawyd |
| Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth | | | | |
| Mae'n rhaid i Regis Healthcare fod yn eglur | Fframwaith llywodraethu | Mae gan y rheolwr cofrestredig gymorth | Unigolyn cyfrifol | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|------------------|---|-------------------------|----------|
| ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr cofrestredig. | ac atebolrwydd | priodol gan ei thîm rheoli erbyn hyn fel nad oes angen i'r unigolyn cyfrifol ddirprwyo yn ei habsenoldeb mwyach. Bydd hyn yn gwella eglurder y swyddogaeth. | a rheolwyr cofrestredig | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Margaret Jones

Swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 15 Mai 2018